## Atodiad L:

## Ymgynghoriad Biosffer Dyfi – eich cyfle i gymryd rhan

### CYFLWYNIAD

Wyddech chi fod rhan o waelod Dyffryn Dyfi'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel 'lle arbennig i bobl a natur'? Cafodd ei ddynodi gan UNESCO yn un o'i broydd 'Biosffer' yn y 1970au - ond does neb wedi defnyddio'r dynodiad hwn i ennill unrhyw fanteision i'r fro.

Mae 482 o froydd o'r fath yn y byd, ond **Dyfi yw'r unig un yng Nghymru.**

Nawr mae UNESCO'n dweud "rhaid i chi'i ddefnyddio neu'i golli". Naill ai mae'n rhaid i ni ddweud wrthynt ein bod am fanteisio ar y statws arbennig hwn (a sut) - neu ddweud wrthynt nad ydym am fod yn rhan o'r rhwydwaith hwn bellach.

Mae gan y fro gyfle prin a chyffrous i fod yn 'Warchodfa Biosffer fodern'. Lluniwyd y ddogfen hon i'ch helpu i feddwl am hyn ac i ofyn am eich barn. **Os gallwch, atebwch erbyn Ebrill 30ain 2007 os gwelwch yn dda.**

**********

Ffurfiwyd Partneriaeth i ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol ynglŷn â chyfleoedd Biosffer Dyfi. Yr aelodau yw:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Gwynedd
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru:
    - Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau
    - Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
- Ecodyfi
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Allan Wynne Jones (enwebwyd i ganolbwyntio ar agweddau diwylliannol)

Delyth Richards yw Swyddog Cyfathrebu â'r Gymuned. Mae Delyth yn hapus i drafod Bro'r Biosffer gydag unigolion neu grwpiau, a gellir cysylltu â hi ar 01654 703965 neu delyth@biosfferdyfi.org.uk.

## Cynnwys


Cyflwyniad tud.1
Partneriaeth Biosffer Dyfi tud.1
Crynodeb tud.3
1. YMATEB I'R DDOGFEN HON tud.4
1.1 Sut i ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl tud.4
1.2 Beth fydd yn digwydd i'ch sylwadau? tud.4
1.3 Beth yw'r amserlen? tud.5
1.4 Y prif gwestiwn i chi tud.5
2. A POLISI CYDLYNU tud.6
2.1 Testun trafod tud.6
2.2 Cyd-destun tud.6
2.3 Gweledigaeth ar gyfer Bro'r Biosffer tud.7
2.4 Diogelu ein hasedau naturiol tud.8
2.5 Diogelu ein hasedau diwylliannol tud.8
2.6 Cynllun Gweithredu tud.9
2.7 Esiamplau o weithgareddau: ymchwil tud.9
2.8 Esiamplau o weithgareddau: addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy tud.10
2.9 Esiamplau o weithgareddau: cymunedol, diwylliannol ac amgylcheddol tud.10
3. TREFNIADAETH A CHYLLID tud.11
3.1 Cefndir tud.11
3.2 Egwyddorion tud.12
3.3 Pwy sy'n penderfynu beth sy'n digwydd? tud.12
3.4 Rheoli prosiectau tud,13
3.5 Gweithgareddau canolog tud.14
3.6 Cyllid ac adnoddau ar gyfer gwaith cyfathrebu â'r gymuned tud.14
3.7 Cyllid ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau canolog yn y dyfodol tud.15
3.8 Cyllid ac adnoddau – agweddau eraill tud.15
4. DIFFINIO'R FRO tud.16
4.1 Cefndir tud.16
4.2 Ardal(oedd) Craidd tud.17
4.3 Ardal(oedd) Ffiniol tud.18
4.4 Ardal Bontio – beth yw ei phwrpas? tud.19
4.5 Ardal Bontio - lle ddylai fod? tud.19
4.6 Enw tud.20
5. ADRODDIAD O'R BROSES HYD YN HYN tud.21
5.1 Cefndir tud.21
5.2 Sampl o'r awgrymiadau a'r pwyntiau a godwyd hyd yn hyn tud.21
6. CASGLIAD tud.23
7. CAMAU NESAF tud.23
Atodiadau ar gael trwy'r post neu ar www.biosfferdyfi.org.uk:-
Atodiad 1: Beth yw Gwarchodfeydd Biosffer?
Atodiad 2: Gweledigaeth UNESCO ar gyfer Gwarchodfeydd Biosffer
Atodiad 3: Cofnod Dyfi ar gyfer Arolwg Gwarchodfeydd Biosffer y DG
Atodiad 4: Enghreifftiau ychwanegol o weithgareddau
Atodiad 5: Rhestr o ddigwyddiadau cyhoeddus
ADNODDAU AR Y WE tud.24
TAFLEN YMATEB tud.25

## CRYNODEB

Yn wreiddiol, roedd dynodiad Gwarchodfa Biosffer Dyfi'n ymwneud â chadwraeth amgylcheddol a chynefin yn unig. Erbyn heddiw, mae Broydd Biosffer yn archwilio sut y gall pobl leol fanteisio wrth ddiogelu'r pethau maent yn eu trysori – gwybodaeth leol, iaith a diwylliant, yn ogystal ag amgylchedd lleol a byd-eang.

Os yw pobl Bro Ddyfi am gadw a defnyddio'r statws hwn, bydd yn rhaid i ni ofyn i UNESCO (Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig) gymeradwyo ardal ehangach na'r un bresennol. Bydd yn rhaid i ni ddangos sut mae pobl, beth bynnag fo'u diddordeb - yn ffermwyr, athrawon, pobl fusnes neu drigolion o bob oed, - yn rhan o'r broses o feddwl sut i fanteisio arni.

Mae adfywio'r statws yn gyfle newydd ac unigryw i ddod â phobl a sefydliadau at ei gilydd i weithio tuag at yr un nod. Mae'n ymwneud â dynodi a bod yn falch o'r hyn sy'n wir werthfawr gennym yn y fro; ei hamgylchedd a'i thirlun, ei hamaethyddiaeth a'i busnes, ei threftadaeth a'i phobl - a phenderfynu sut i'w gwarchod mewn byd sy'n newid.

Mae statws Biosffer yn beth hollol wirfoddol. Ni fydd unrhyw gais i ddiweddaru'r dynodiad yn mynd i UNESCO heb gefnogaeth y gymuned. Mae 'Partneriaeth Biosffer Dyfi' wedi'i sefydlu rhwng cynrychiolwyr o'r gymuned, Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, er mwyn ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol ynglŷn â chyfleoedd Biosffer Dyfi. Mae'r aelodau wedi'u rhestru tu mewn i'r clawr blaen.

Ni fyddai dynodiad llwyddiannus yn rhoi cronfa benodol o arian ychwanegol i'r fro. Er hynny, byddai'n debygol o gynyddu'r siawns am geisiadau perthnasol am arian gan grwpiau a busnesau sy'n cydweithio â'r strwythurau cyfundrefnol angenrheidiol.

Mae Bro'r Biosffer bresennol yn rhy fach i fod yn gymwys o dan feini prawf newydd UNESCO. Ar hyn o bryd, nid yw ond yn cynnwys ardaloedd a ddiogelwyd (Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi'n bennaf, sy'n cynnwys Ynyslas, Cors Fochno a'r aber o Aberdyfi cyn belled â Chyffordd Dyfi). Heddiw, mae'n rhaid i Fiosfferau gynnwys nifer rhesymol o gartrefi a gweithgareddau busnes.

Mae'r rhan fwyaf o'r trafodaethau ynglŷn â dyfodol y dynodiad hwn wedi'u cynnal oddi mewn i'r fro a welir ar y map tu mewn i'r clawr. Fodd bynnag, bydd angen penderfynu beth fyddai maint a siâp yr ardal gyfan (a'r ardaloedd oddi mewn iddi). Bydd y rhain yn cael eu trafod yn nes ymlaen yn y ddogfen hon yn Adran 4, 'Diffinio'r Fro'.

Mae UNESCO wedi galw'r broydd hyn yn "Warchodfeydd Biosffer" erioed, ond mae gan bob ardal yr hawl i ddefnyddio'i fersiwn ei hun o'r enw. I'r rhan fwyaf o bobl, mae'r gair "Gwarchodfa" yn gwneud inni feddwl am ddarn o dir a

ddiogelir gan ffens. Ond NID dyna yw Gwarchodfeydd Biosffer modern, a dyna pam mae Partneriaeth Biosffer Dyfi'n defnyddio'r enw "Bro'r Biosffer".

Fe welwch fod y ddau derm yn y ddogfen hon. Weithiau bydd yn cael ei alw'n ddim ond "Biosffer". Mae'r rhain i gyd yn ymgyfnewidiol. Rydym angen eich syniadau chi am enw - gweler adran 4.6 isod.

## 1. YMATEB I'R DDOGFEN HON

### 1.1 Sut i ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl

Gallwch ateb gymaint, neu cyn lleied o gwestiynau a phwyntiau ag y dymunwch, trwy ddefnyddio'r daflen ateb yng nghanol y ddogfen fyddai orau. Weithiau gofynnir i chi gytuno neu anghytuno ar raddfa 1 i 5 lle mae:

1 = anghytuno'n bendant
2 = anghytuno
3 = ddim yn gwybod, ddim yn malio neu efallai
4 = cytuno
5 = cytuno'n bendant

Bydd cwestiynau eraill yn cynnig nifer o opsiynau a byddwn yn gofyn ichi ddewis un (yn unig) neu i gytuno ag unrhyw nifer ohonynt.

Byddai o help pe baech yn ychwanegu sylwadau ac awgrymiadau hefyd i egluro'ch atebion.

Mae croeso i chi lungopïo'r daflen atebion i bobl eraill fedru'i defnyddio – neu ysgrifennwch atom!

### 1.2 Beth fydd yn digwydd i'ch sylwadau?

Rydym yn gobeithio derbyn barn leol yn ysgrifenedig ac yn bersonol, yn electronig neu ar lafar. Bydd Partneriaeth Biosffer Dyfi'n edrych ar yr ymatebion er mwyn gweld os oes consensws ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Er mwyn symud ymlaen gyda chais i UNESCO, byddai'n rhaid derbyn datganiadau o gefnogaeth oddi wrth y tri Awdurdod Unedol (Cyngor Sir) ac oddi wrth Barc Cenedlaethol Eryri. Yn ddelfrydol, byddai datganiadau tebyg gan Gyngor y Dref a'r Cynghorau Cymuned.

Byddai tystiolaeth ysgrifenedig arall, yn cynnwys llythyrau oddi wrth gymdeithasau, ysgolion ac unigolion yn cyfrif hefyd. Yn ddelfrydol, byddai'r sylwadau'n egluro sut mae'r sefydliad neu'r person yn disgwyl cymryd rhan e.e. trwy farchnata cynnyrch, cynnal prosiect, gwneud ymchwil, bod yn rhan o'r strwythur cydlynol ayb. neu egluro pa amheuon sydd gennych.

## 1.3 Beth yw'r amserlen?

Hydref 2006 Cynhaliwyd cyflwyniadau a thrafodaethau mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gyda chlybiau a chymdeithasau

Gaeaf 2006/7 Anfonwyd taflen am y broses i bob tŷ a busnes yn ardaloedd cod post SY20 (8), LL35 (0), SY19 (7), SY20 (9) ac SY24 (5)

Ebrill 2007 Dosbarthu'r ddogfen hon. Mae ail daflen yn cael ei anfon i bob cyfeiriad yn LL35(0), SY19 (7), SY20 (8), ac SY20(9).

Mai 2007 Ail rownd o ddigwyddiadau(a restrir yn Adran 7). Pobl yn archwilio opsiynau ar y Fforwm rhyngweithiol newydd ar www.dyfibiosphere.org.uk

**30 Mehefin 2007 Dyddiad cau ar gyfer sylwadau i geisio dylanwadu ar ein penderfyniad ynglŷn â symud ymlaen**

Canol Gorffennaf 2007 Partneriaeth Biosffer yn asesu adborth a sylwadau. Dod i benderfyniad ynglŷn â chyflwyno cais i UNESCO i adnewyddu'r dynodiad trwy Bwyllgor y DG 'Dyn a'r Biosffer (MaB)'.

Os felly, bydd angen anfon drafft o'r cais (a elwir yn Ffurflen Enwebu) i gyrff cyhoeddus erbyn tua diwedd mis Awst, ac anfonir y fersiwn terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiwedd mis Hydref. Byddant hwy yn ei anfon ymlaen i Lywodraeth y DG a chyrff UNESCO yn y DG yng nghanol mis Rhagfyr, a bydd yn cyrraedd pencadlys UNESCO mewn pryd iddynt hwy ei ystyried ym Mehefin a Gorffennaf 2008.

## 1.4 Y prif gwestiwn i chi

Y prif gwestiwn i chi ei ystyried yw:
Cwestiwn 6: A ddylai Partneriaeth Biosffer gyflwyno cais i UNESCO, yn gofyn am iddynt dderbyn ardal Dyfi fel Bro Biosffer fodern?

Byddem yn argymell i chi ddarllen gweddill yr adroddiad cyn ateb y cwestiwn.

Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan ragdybio y bydd cais o'r fath yn cael ei gyflwyno. Y rheswm am hynny yw ceisio sicrhau bod y cwestiynau'n ddealladwy – nid am fod unrhyw benderfyniad wedi'i wneud yn barod!

Mae cynnwys a chynllun y ddogfen hon yn adlewyrchu anghenion 'ffurflen gais' UNESCO.

## 2. POLISI CYDLYNU

### 2.1 Testun trafod

Mae ffurflen gais Biosffer yn gofyn am brif nodweddion cynllun neu bolisi i arwain y fro. Yn fwyaf arbennig, mae UNESCO eisiau gwybod pwy sy'n dylanwadu ar y defnydd o'r tir ar hyn o bryd, a sut - ac ym mha ffyrdd y mae hyn yn debygol o newid.

Mae gan Bartneriaeth Biosffer Dyfi uchelgais ehangach i'r broses Biosffer nag y mae hyn yn ei awgrymu. Rydym yn cydnabod bod statws Biosffer yn bosibl oherwydd gwerth naturiol uchel y fro, ond rydym wedi ymrwymo i drin cyfoeth diwylliannol y fro gyda'r un parch â'r asedau naturiol.

Rydym yn hyderus y bydd UNESCO'n cytuno â'n safbwynt. Ystyr UNESCO yw Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig, ac mae ganddo nifer o raglenni i gefnogi'r ochr yma i'w waith. Fe wyddom hefyd bod y staff yn deall y cysylltiad clòs sy'n bodoli rhwng y defnydd o dir a diwylliant, er enghraifft mewn arferion amaethyddol.

Weithiau, disgrifir broydd Biosffer fel "labordai byw datblygiad cynaliadwy" Sialens fwyaf datblygiad cynaliadwy yw cymodi cadwraeth bioamrywiaeth gydag anghenion dynol. Lansiodd UNESCO'i raglen Dyn a'r Biosffer (MaB) er mwyn gwella dealltwriaeth o'r berthynas rhwng dyn a'i amgylchedd, a hynny arweiniodd at y Warchodfa Biosffer fel cysyniad ac arf. Dywedir yn aml mai ymwneud â chyd-ddibyniaeth yr amgylchedd, yr economi a chymuned (yn cynnwys treftadaeth) y mae datblygiad cynaliadwy. Mae deall y gyd-ddibyniaeth hon yn fater diwylliannol ynddo'i hunan.

Cwestiwn 2.1: A ddylai Biosffer Dyfi boeni am warchod asedau diwylliannol yn ogystal ag asedau naturiol?

### 2.2 Cyd-destun

Mae'r fro yma eisoes yn ardal arbennig. Mae ynddi gynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnal cartrefi rhywogaethau prin. Mae ymhell dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r tirlun yn hardd a thrawiadol, ond yn groesawgar hefyd. Yma mae prifddinas hynafol Cymru, lle y daeth Owain Glyndŵr â Chymru at ei gilydd. Mae'i sefydliadau'n cynnwys Y Tabernacl a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen. Mae'i grwpiau Ffermwyr Ifainc ac Urdd Gobaith Cymru'n sêr yn y ffurfafen ddiwylliannol. Mae'r dyffryn Masnach Deg hwn yn adnabyddus am ei arbenigedd mewn datblygu cynaliadwy. Mewn proses gystadleuol, enillodd yr ardal ddau ddynodiad yn ddiweddar fel Ardaloedd Twf Twristiaeth.

Ond mae rhai o'r asedau hyn o dan fygythiad. Mae'n hinsawdd yn newid oherwydd ein ffordd orllewinol o fyw. Mae llawer o bwysau ar yr iaith Gymraeg. Mae ffermwyr mynydd a choedwigwyr yn ail-edrych ar eu hopsiynau er mwyn ystyried y newidiadau yn eu diwydiannau.

Mae broydd biosffer yn rhan o'r darlun yma. Maent yn cael eu harwain gan ddogfen UNESCO o'r enw Strategaeth Seville. Fe'i lluniwyd yn 1995 i ddisgrifio'r newid yn ffocws Broydd Biosffer o gadwraeth i ddatblygu cynaliadwy. Mewn geiriau eraill, mae'r dynodiad yn ymwneud ag annog a hwyluso pobl i weithio gyda'i gilydd, i fyw yn y fro a rheoli'r fro gyfan mewn modd cynaliadwy.

## 2.3 Gweledigaeth ar gyfer yr Bro'r Biosffer

Tybed sut fyddwn ni'n disgrifio'n hunain yn y flwyddyn 2020? Gallai'r **weledigaeth** ganlynol arwain proses Biosffer Dyfi:

"Bydd Biosffer Dyfi'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol am amrywiaeth ei harddwch naturiol, ei threftadaeth a'i bywyd gwyllt, ac am ymdrechion ei phobl i wneud cyfraniad positif i fyd mwy cynaliadwy. Bydd yn gymuned hyderus, iach, gofalgar a dwyieithog, yn cael ei chefnogi gan economi gref wedi'i seilio ar gryfderau leol."

Mae manteision posibl statws Biosffer modern yn cynnwys:

- Manteisio ar gymorth a chyngor gan UNESCO a Broydd Biosffer eraill ledled y byd
- Cadw a gwella'r fro fel lle gwych i fagu plant a chreu mwy o gyfleoedd iddynt fedru aros yma
- Gosod mwy o werth ar ein hamgylchedd naturiol ac ar y ddiwylliant Cymraeg
- Cynyddu gweithgaredd gwirfoddol mewn cadwraeth natur, er enghraifft mewn rheoli rhywogaethau ymledol neu trwy greu 'coridorau bywyd gwyllt'.
- Peirianweithiau newydd sy'n annog trafodaethau a chytundeb rhwng pobl sy'n berchen ar werthoedd a blaenoriaethau gwahanol
- Economi leol sy'n fwy hunan-gynhaliol, yn llai dibynnol ar danwydd ffosil, gyda thwf sy'n cael ei yrru gan wybodaeth ac adnoddau lleol
- Bro sy'n fwy cynaliadwy; gyda'r trigolion a'r ymwelwyr yn dewis nwyddau a gynhyrchwyd yn lleol yn amlach, ac yn lleihau ein heffaith ar y byd
- Defnyddio 'brand' UNESCO i hyrwyddo ansawdd cynnyrch amaethyddol a phrofiadau twristiaeth – yn y DG ac yn rhyngwladol

Gallai'r pwyntiau yma ddod yn **amcanion** Bro'r Biosffer ac yn sail i gynllun gweithredu fedru eu cyrraedd.

Cwestiwn 2.3: A ddylai Biosffer Dyfi fabwysiadu'r weledigaeth a'r amcanion a ddisgrifiwyd?

## 2.4 Diogelu ein hasedau naturiol

Mae pob agwedd o ddynodiad Biosffer yn wirfoddol. Am y rheswm hynny, mae'n well gan Bartneriaeth y Biosffer feddwl yn nhermau cydlynu yn hytrach na rheoli, gan chwilio am gonsensws er lles y gymuned gyfan.

Gan mai bioamrywiaeth sydd wrth wraidd y cysyniad, dylai polisi cydlynu'r Biosffer ddisgrifio sut mae ei ddiogelu.

Rydym yn argymell, fod y dynodiadau ardal sydd eisoes yn cael eu gwarchod, o leiaf, yn aros fel y maent ar hyn o bryd. Disgrifir rhai o'r rhain yn yr adran a elwir yn "Diffinio'r fro" yn nes ymlaen yn y ddogfen. Gellir eu gweld hefyd ar fap rhyngweithiol ar http://www.ccw.gov.uk/interactive-maps/protected-areas-map.aspx ac ar http://www.biosfferdyfi.org.uk.

Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn dod â nifer o fesurau perthnasol at ei gilydd, a dylent gael eu mabwysiadu fel rhan o bolisi'r Biosffer.

Yn ychwanegol at hyn, hoffem glywed oddi wrthych os oes unrhyw nodweddion naturiol arbennig yr hoffech eu gweld yn cael eu diogelu. Mae'r potensial gan y dynodiad Biosffer i gynnig 'gwerth ychwanegol' i warchod planhigion ac anifeiliaid pe byddai (er enghraifft) cydweithio'n llwyddo i greu cytundebau gwirfoddol rheoli tir.

Cwestiwn 2.4 A oes unrhyw nodweddion naturiol penodol y byddech yn hoffi'u gwarchod neu eu gwella?

## 2.5 Diogelu ein hasedau diwylliannol

Byddai Partneriaeth Biosffer yn hoffi clywed oddi wrthych hefyd os ydych yn teimlo bod nodweddion diwylliannol arbennig yn y fro y mae angen eu gwarchod, eu datblygu neu'u hyrwyddo.

Gallai hyn gynnwys arferion, tafodiaith a geirfa leol yn ogystal â cherddoriaeth a ffurfiau celfyddydol. Efallai na fyddant i gyd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ond bydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd lleol yn sicr o fod yn rhan amlwg o unrhyw gynllun gweithredu.

Mae bywiogrwydd treftadaeth yr iaith Gymraeg a'r diwylliant lleol i'w weld yn llwyddiannau cyson corau, cwmnïau theatrig a chystadleuwyr eraill o'r nifer o Glybiau Ffermwyr Ifainc ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Ond mae'r ffaith bod llawer o'r bobl ifainc hyn yn methu cael tai na chreu bywoliaeth yn y fro yn dangos pa mor fregus ydyw hefyd.

Yn fwy diweddar, gwelodd y fro fewnlifiad o bobl o safon addysgol uchel, yn llawn egni a chymhelliad ecolegol. Mae'r clystyru o arbenigedd a ddigwyddodd yn sgil hyn yn agwedd o natur unigryw Bro Ddyfi – yn ddiwylliannol ac yn dechnegol.

Mae gan adeiladu tir cyffredin a chynyddu dealltwriaeth a chydweithrediad rhwng y ddwy elfen hyn yn y gymuned botensial sylweddol i'r Biosffer, er enghraifft mewn cynllunio adeiladau ac ynni, a hefyd mewn cerddoriaeth, addysg ac iaith.

Cwestiwn 2.5: A oes unrhyw nodweddion diwylliannol arbennig yn y fro sydd angen eu gwarchod, eu datblygu a'u hyrwyddo?

## 2.6 Cynllun Gweithredu

Ni fydd manteision yn dod oni bai fod busnesau a phobl yn cymryd rhan: nid y statws Biosffer sy'n bwysig, ond y gweithgareddau a'r prosiectau fydd yn digwydd yn ei sgil. Gall unrhyw un gynnig neu helpu i gynllunio'r rhain.

Mae'r tair adran nesaf yn disgrifio enghreifftiau o weithgareddau fyddai'n helpu i symud y fro ymlaen tuag at y weledigaeth o'r Biosffer. Disgrifir rhai eraill yn Atodiad 4. Mae rhai ar droed yn barod ac eraill yn ddim ond syniadau.

Rydym yn sôn amdanynt yma er mwyn i chi gael gwell syniad o'r amrywiaeth o gyfleoedd y gellid eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu syniadau i'w hychwanegu cofiwch ddefnyddio'r Ffurflen Ymateb i ddweud wrthym. Pe baech yn dymuno, gallech ofyn i ni anfon eich manylion ymlaen i'r corff mwyaf perthnasol.

## 2.7 Esiamplau o weithgareddau: ymchwil

Cofiwch, dim ond rhai esiamplau o brosiectau posibl y mae Partneriaeth Biosffer wedi dod ar eu traws yn ystod ymgynghoriadau cymunedol yw'r rhain. Maent yn cael eu crybwyll yma i ysgogi trafodaeth bellach.

Archwiliad diwylliannol

Mae llawer o wybodaeth gennym am agweddau biolegol a geoffisegol y fro, ond ychydig o gofnod sydd o'r rhan fwyaf o'r agweddau diwylliannol. Beth sy'n gwneud y gymuned hon yn un arbennig? Pa is-gymunedau fedrwn ni'u disgrifio? Beth yw eu perthynas â'i gilydd a'r amgylchedd? Byddai astudiaeth anthropolegol yn darparu man-cychwynnol i fonitro newid, a fyddai'n dadlennu cyfoeth i'w ddathlu, a gallai ddadlennu'r angen i ddiogelu rhai agweddau – yn ogystal â chyfleoedd i wella dealltwriaeth a chyfathrebu.

Cofnodion ac arolygon

Ydych chi neu eich cymdeithas yn cadw cofnodion o unrhyw beth fyddai'n cynyddu ein dealltwriaeth o'r fro? Mae cofnodion pysgota, cofnodion hela adar, arolygon adar neu loÿnnod byw, a chofnodion tywydd neu dymheredd pridd yn enghreifftiau. Gadewch i ni wybod os ydych yn fodlon eu rhannu.

## 2.8 Esiamplau o weithgareddau: addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy

Ôl troed Dyfi

Yn ôl y WWF, pe byddai pawb yn y byd yn byw yn yr un ffordd â ni yma yng Nghymru, byddem angen tair planed i'n cynnal. Mae prosiect Ôl Troed Dyfi yn anelu at helpu pobl leol i fesur eu Ôl Troed Eco personol a helpu unigolion a grwpiau i weld sut y gallant leihau eu hôl troed mewn ffyrdd ymarferol, lleol. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan bobl ifainc, a

bydd gofyn iddynt ddychmygu sut y gallem wneud pethau mewn ffordd wahanol.

## 2.9 Esiamplau o weithgareddau: cymunedol, diwylliannol ac amgylcheddol:

Gŵyl Afon / Biosffer Dyfi

Gall gwyliau a digwyddiadau ddod â phobl at ei gilydd i fwynhau eu hunain, rhannu gwybodaeth a denu ymwelwyr. Byddai Gŵyl wedi'i seilio ar y system afon yn llwyddo i gysylltu'r cymunedau amrywiol a geir ym Mro Ddyfi. Byddai llawer o'r digwyddiadau'n dathlu'r asedau naturiol a diwylliannol sy'n sail i Fro'r Biosffer. Un opsiwn fyddai adeiladu ar yr ŵyl a gynhaliwyd yn ystod hanner tymor Hydref 2006, sef Gŵyl y Golau.

Cynllun gweithredu'r iaith Gymraeg

Y nod yw cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym Machynlleth a'r cylch, trwy gydlynu gweithgareddau ar gyfer pobl leol a sefydliadau yn y fro a dynodi amgylchiadau ac anghenion lleol.

Gwresogi tanwydd coed i ardal Dinas Mawddwy

Mae'n bosib gwresogi adeiladau Dinas Mawddwy a Minllyn yn rhannol neu i gyd o foeler unigol, trwy ddefnyddio sglodion o goed lleol. Byddai dŵr poeth yn cael ei gludo o dan y ddaear mewn pibelli wedi'u hinsiwleiddio, fel yng nghynllun Llanwddyn. Byddai gan y trigolion a'r ysgol wres fyddai'n fwy fforddiadwy, a byddai llai o garbon deuocsid sy'n achosi newid yn yr hinsawdd yn cael ei ollwng, a byddai ffermwyr a choedwigwyr yn manteisio. Byddai cynnig o'r fath yn dod â chyfleoedd busnes newydd i berchnogion tir fyddai'n dymuno arallgyfeirio i gnydau ynni. Mae gan dyfu helyg mewn rhesi yn ymyl cwrs dŵr (neu ar dir sy'n cael ei ffermio'n ddwys) y potensial i wella bioamrywiaeth mewn cyrsiau dŵr trwy leihau lefelau nitrad, ond yn dod ag incwm i'r busnes ar yr un pryd.

Astudiaeth dichonoldeb i sut y byddai ffermwyr lleol yn medru manteisio ar ddefnyddio brand Biosffer

Mewn gwledydd eraill, gwelir bod cwsmeriaid yn gweld gwerth mewn brand UNESCO neu frand Biosffer, ond mae mwy o waith i'w wneud i droi'r posibilrwydd hwn yn realiti i Fro Ddyfi. Beth yw maint marchnad o'r fath a sawl ffermwr fyddai'n medru gwerthu i mewn iddi? Pa fath o gydweithrediad fyddai ei angen rhwng cynhyrchwyr?

Datblygu a marchnata "eco" dwristiaeth

Mae Bro Ddyfi a Cheredigion wedi manteisio o fenter Ardal Twf Twristiaeth a arweiniwyd gan Fwrdd Croeso Cymru. Byddai dynodiad Bro Biosffer Dyfi'n cynnig cyfleoedd pellach i fuddsoddi a marchnata o dan frand UNESCO. Yn y cyfamser mae cynllun i farchnata agweddau "gwyrdd" y fro ar droed, yn seiliedig ar yr un gwerthoedd â'r Biosffer. Mae Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru a'r Cynllun Gweithredu i adfywio arfordir Bae Ceredigion (sy'n fwy lleol) yn sôn am y Biosffer a'i botensial ym maes twristiaeth. Mae llwybr arfordir Cymru Gyfan yn un cyfle a all ddeillio o hyn.

Ansawdd afon, pysgota a mynediad at afon

Mae'r Ddyfi'n adnabyddus am ei physgota o ansawdd uchel, ond mae'r stoc wedi lleihau'n ddramatig dros y blynyddoedd. Mae llawer o ffactorau perthnasol, yn cynnwys ansawdd y dŵr o bosib. Yn ychwanegol at hyn, mae pysgota'n fusnes mawr mewn rhai ardaloedd, ac ar adegau gall fod yn anodd cael trwydded ar y Ddyfi. Mae twristiaeth sy'n seiliedig ar ddŵr yn cyfrannu'n helaeth at sawl economi wledig ond nid yw'n cael ei ganiatáu ar y Ddyfi. Efallai bod cyfle i ddod â phawb at ei gilydd i gynllunio pecyn o fesurau grant-gymorthedig fyddai'n dderbyniol gan bawb, ac na fyddent yn niweidiol i ecosystem yr afon mewn unrhyw fodd. Gallent anelu at wella rheoli llifogydd yn ogystal ag ansawdd y dŵr, y stoc bysgod a mynediad at yr afon.

Llwybr beicio a cherdded rhwng Machynlleth ac Aberdyfi

Mae Llwybr Beicio 8 (Lôn Las Cymru) yn addas ar gyfer beiciau mynydd yn unig ar yr adran hon, ac mae rhai troeon peryglus ar y ffordd fawr. Byddai cysylltiad diogel yn atyniad mawr i ymwelwyr a phobl leol. Byddai unrhyw gynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i'r tirlun a'r fioamrywiaeth bresennol.

Llwybrau cerdded treftadaeth 'Llwybrau Dyfi'

Mae llwybrau cylchol byr o bentrefi'n ddefnyddiol i bobl leol yn ogystal ag ymwelwyr. Maent yn medru cysylltu mannau lle y gall pobl brynu cynnyrch lleol neu wasanaethau â mannau o arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu amgylcheddol. Mae eu cynllunio a'u dehongli'n ymarferiad addysgol i'r rhai sy'n eu defnyddio. Mae ecodyfi a thri Cyngor Cymuned yn rheoli prosiect yng ngogledd Ceredigion ar hyn o bryd fel rhan o raglen Ysbryd y Mwynwyr.

Cwestiwn 2.7, 2.8 & 2.9: Fedrwch chi awgrymu unrhyw weithgareddau neu brosiectau ychwanegol?

## 3. TREFNIADAETH A CHYLLID

### 3.1 Cefndir

Mae UNESCO'n gofyn am weld trefniadau'n cael eu darparu "fel bod amrywiaeth addas o awdurdodau cyhoeddus, cymunedau lleol a diddordebau preifat yn cymryd rhan yng nghynllunio a chyflawni swyddogaeth gwarchodfa biosffer". Mae'n ofynnol i'r trefniadau gynnwys "awdurdod neu beirianwaith dynodedig" i weithredu'r polisi cydlynol.

Ar hyn o bryd, mae'n amhosib disgrifio trefniadau o'r fath yn llawn. Pe byddai'r dynodiad Biosffer yn mynd rhagddo, byddai'n rhaid eu trafod dros y flwyddyn nesaf gyda'r rhai a fyddai â diddordeb mewn cymryd rhan, a byddai'r drefniadaeth yn dal i ddatblygu fel y byddai'r cyfranogiad yn cynyddu.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i gais a gyflwynir i UNESCO ddisgrifio prif elfennau trefniadau o'r fath, yn seiliedig ar rai egwyddorion y gellir cytuno arnynt ar hyn o bryd.

## 3.2 Egwyddorion

Mae Partneriaeth Biosffer yn cynnig yr egwyddorion canlynol:

1. Dylai pawb sy'n byw ac yn gweithio yn y fro gael cyfleoedd i gymryd rhan
2. Dylai fod gan y bartneriaeth drefniadau i oruchwylio'r datblygiad tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt
3. Dylai partneriaethau o'r fath fod yn atebol i'r gymuned leol yn ogystal â phwy bynnag sy'n cyfrannu arian i weithredu'r amcanion
4. Dylid defnyddio ymarfer gorau, e.e. cyfathrebu agored, ni ddylai un corff dra-arglwyddiaethu, parch tuag at bawb sy'n cymryd rhan, proses ddwyieithog lawn
5. Ble mae hynny'n bosibl, dylai mentrau gael eu harwain gan fusnesau, neu grwpiau yn y sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol
6. Mae'n angenrheidiol bod perchnogion tir a chyrff cyhoeddus yn medru parhau gyda'u gwaith dydd-i-ddydd a chyflawni'u cyfrifoldebau cyfreithiol

Cwestiwn 3.2: A yw'r egwyddorion hyn yn addas?

## 3.3 Pwy sy'n penderfynu beth sy'n digwydd?

Dyma un ffordd y gellir cymhwyso'r egwyddorion uchod:

1. Gallai'r Bartneriaeth Biosffer (gweler y rhestr aelodau ar dudalen 1) ddod yn brif Bartneriaeth Cydlynu, efallai trwy ychwanegu aelodau o:
   - Gyngor y Dref a Chynghorau Cymuned,
   - Unrhyw Fforwm Biosffer fyddai'n cael ei chreu, a
   - 'chymunedau o ddiddordeb' cydnabyddedig (gweler isod).
2. Gellid ffurfio un neu fwy 'Fforwm Biosffer', a thrwyddynt byddai'r Bartneriaeth yn atebol i ddiddordebau cymunedol ehangach. Er enghraifft:
   - Fforwm ar gyfer defnyddwyr yr Aber
   - Fforwm ar gyfer perchnogion a rheolwyr Ardaloedd Craidd a Ffiniol (gweler adrannau 4.2 a 4.3 yn "Diffinio'r Fro")
   - Fforwm ar gyfer y gymuned yn gyffredinol, gyda ffocws arbennig ar yr Ardal Pontio o bosib
3. Gallai'r bartneriaeth cydlynu naill ai ddod yn 'ymgorfforedig' fel ei fod yn medru trin arian a chyflogi staff, neu gyflogi sefydliad i wneud hynny ar ei ran, (fel 'Ysgrifenyddiaeth'). Gallai reoli'i brosiectau ei hun a/neu eu dirprwyo i grwpiau addas.

Mae'r term 'cymunedau o ddiddordeb' yn cynnwys grwpiau o fusnesau perthnasol (megis ffermwyr yn dod at ei gilydd at bwrpas brandio) a chymdeithasau hen a newydd (megis cymdeithasau o bysgotwyr neu ddarparwyr gweithgareddau awyr agored). Dylid annog unrhyw gorff o'r fath i gynllunio a pharatoi gweithgareddau fyddai'n gwella Bro'r Biosffer.

Pe byddai busnesau a chymdeithasau'n dymuno cael cynrychiolaeth ffurfiol ar y Bartneriaeth, yna mae'n bosibl y byddai'n rhaid iddynt ddangos sut maent yn

cynrychioli neu'n cyfathrebu gyda buddiannau eraill yn y Biosffer drwyddi draw. Fel arall, byddent yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau trwy Fforwm y Biosffer neu bwyllgor arbenigol.

Cwestiwn 3.3a: Pe byddai'r Bartneriaeth bresennol yn datblygu i fod yn Bartneriaeth Cydlynu dros y tymor hir, pa newidiadau neu ychwanegiadau (os o gwbl) ddylid eu gwneud i'r aelodaeth?

Cwestiwn 3.3b: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y trefniadau a ddisgrifir?

## 3.4 Rheoli prosiectau

Er nad oes "pot" o arian canolog i gynnal prosiectau, mae disgwyl i statws Biosffer wella'r ceisiadau am arian.

Bydd unrhyw staff y Biosffer yn disgwyl chwarae eu rhan yn symbylu gweithgaredd o'r fath, ond yn y mwyafrif o achosion busnesau, sefydliadau cymunedol neu gyrff o'r sector gyhoeddus fydd yn arwain.

Pe byddai unrhyw sefydliad am i'w weithgareddau gael eu hystyried yn rhan o'r cynllun rheoli Biosffer, byddai'n rhaid:

a) Ymgynghori gyda phwy bynnag sy'n cydlynu'r Biosffer
b) Dangos sut mae'r gweithgaredd neu'r prosiect yn gweithio tuag at weledigaeth y Biosffer.

Wrth wneud hynny, byddai'r gweithgareddau'n cryfhau ac yn fwy cydlynol.

Yn ychwanegol at hyn, gall y rhai sy'n cydlynu'r Biosffer ddatblygu prosiectau. Yn yr achosion hynny, byddant:

a) Yn penderfynu pa rai o'r nifer o syniadau yw'r rhai mwyaf perthnasol a defnyddiol
b) Asesu pwy fyddai orau i'w gweithredu
c) Helpu i chwilio am yr adnoddau angenrheidiol.

Yn fwyaf arbennig, bydd pwy bynnag sy'n cydlynu'r Biosffer yn edrych am brosiectau fyddai'n denu arian o'r tair ffynhonnell isod:

a) Ariannu Cydgyfeiriant yr Undeb Ewropeaidd (Amcan 1 yn wreiddiol: ar gael i Geredigion a Gwynedd – ac o bosib i weddill Bro Ddyfi pe byddai hynny'n gwneud y prosiect yn un gwell yn gyffredinol)
b) Ariannu Cystadleurwydd yr Undeb Ewropeaidd (Amcan 2 yn wreiddiol: ar gael i Bowys)
c) Y Cynllun Datblygu Gwledig ("Echel 3 ac Echel 4").

Gallai ffynonellau ariannu eraill fod o gymorth i'r fro adeiladu cysylltiadau gyda chymunedau eraill, megis broydd Biosffer eraill yn Ewrop neu mewn gwledydd tanddatblygedig.

## 3.5 Gweithgareddau canolog

Bydd gweinyddu effeithlon, monitro, gwerthuso, adrodd, gweithgareddau hyrwyddo a darparu gwybodaeth yn swyddogaethau pwysig. Gallai'r bartneriaeth gydlynu naill ai ddatblygu i fod yn gorfforaethol fel y gallai drin arian a chyflogi staff, neu gyflogi sefydliad i wneud hynny ar ei rhan (fel 'Ysgrifenyddiaeth'). Gellid comisiynu gweithgareddau arbenigol oddi wrth gontractwyr addas.

Bydd angen i'r bartneriaeth gydlynu ymateb i weinyddiaeth sy'n rhan o'r wladwriaeth (yn ffurfiol llywodraethau sy'n enwebu Broydd Biosffer). Gofynnir i'r cyrff cyhoeddus perthnasol drafod pwy sydd yn y safle gorau i ymgymryd â'r rôl yma.

### 3.6 Cyllid ac adnoddau ar gyfer gwaith cyfathrebu â'r gymuned

Y gwaith ar hyn o bryd yw cael pobl i feddwl am y dyfodol a beth i'w wneud ynglŷn â'r Biosffer, a hynny'n arwain at gais posibl i UNESCO. Mae'n cael ei gyllido trwy grant i'r bartneriaeth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (gydag arian o Lywodraeth Cynulliad Cymru). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arian ar gyfer datblygu gwefan trwy'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Mae Partneriaeth y Biosffer wedi comisiynu ecodyfi i baratoi rheolaeth leol o'r gwaith hwn ar ei rhan.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer Pwyllgor UNESCO Cymru Wales i dalu am ddau ddarn penodol o waith a gyflawnwyd ar y cyd gan ecodyfi a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen. Y cyntaf oedd gweithio gydag ysgolion uwchradd a cholegau sy'n gwasanaethu'r fro (a gyda ffotograffydd proffesiynol) i godi ymwybyddiaeth o Fro'r Biosffer, datblygu cynaliadwy a sut rydym yn effeithio ar y blaned. Yr ail oedd symbylu trafodaeth trwy gynhyrchu cyhoeddiadau a thrwy ddefnyddio mat chwarae mawr, wedi'i lunio o fapiau awyr o'r fro.

Mae'r sefydliadau sy'n gweithio gyda Phartneriaeth Biosffer Dyfi wedi cyfrannu amser staff sylweddol i'r fenter hon. Yn ychwanegol at hyn, mae nifer o unigolion wedi cymryd rhan yn wirfoddol.

### 3.7 Cyllid ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau canolog yn y dyfodol

Mae UNESCO'n gofyn am syniad o bwy fyddai'n darparu'r "gefnogaeth dechnegol ac ariannol" ar gyfer rheoli, a phwy fyddai'n "mynd i'r afael â phroblemau rhyngberthynol amgylcheddol, defnydd o dir, a phroblemau cymdeithasol-economaidd".

Bydd y gyllideb angenrheidiol i dalu am swyddogaethau canolog yn amrywio yn ôl y peirianweithiau cydlynol fydd yn cael eu mabwysiadu, a lefel uchelgais y gymuned.

Mae'n bosibl y gallai cydlynwyr y Biosffer greu peth o'r incwm yma, er enghraifft trwy drefnu teithiau ar gyfer ymwelwyr, megis grŵp o fyfyrwyr neu

ymchwilwyr. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r cyllid fod yn arian cyhoeddus, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.

Yn y rhan fwyaf o Froydd Biosffer, mae'r rhan fwyaf o arian yn dod o lywodraeth ranbarthol neu leol. Yng Nghymru, mae cyfle hefyd i gyflwyno cais am arian Ewropeaidd. Byddem yn gallu troi at y cyfranwyr posibl canlynol pe byddai'r broses yn mynd yn ei blaen:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru a/neu Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Ariannu Cydgyfeiriant (Yr Undeb Ewropeaidd)
- Cynllun Datblygu Gwledig Echel 3 ac Echel 4 (UE)
- CAE (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ceredigion

Bydd yn rhaid trafod maint a natur cyfraniad yr Awdurdodau Unedig gyda'r tri ohonynt. Efallai y byddai'n haws ganddynt ddarparu amser staff nag arian. Gallai fod yn gyfuniad o swydd ar gyfer swyddog cyswllt rhan-amser ymroddgar ymhob awdurdod ac amser adrannau gwasanaeth megis cyfieithu neu fapio.

Cwestiwn 3.7:A yw'n iawn fod cymaint o ariannu 'craidd' i ddod o'r pwrs cyhoeddus?

## 3.8 Cyllid ac adnoddau – agweddau eraill

Byddai cyllideb ganolog yn creu amgylchiadau fyddai o gymorth i'r rhai fyddai'n ceisio dod ag adnoddau i'r fro ar gyfer prosiectau. Ni fyddai'n cynnwys y gost o wella a pharhau gydag ymchwil, rheoli a monitro'r Ardal Graidd a'r Ardal Ffiniol. Byddai hyn yn parhau fel y mae ar hyn o bryd.

Enghraifft o sut fyddai Bro'r Biosffer yn gallu bod o gymorth i wneud i bethau ddigwydd yw'r argymhelliad ariannu presennol gan Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth mewn cydweithrediad â Choleg Prifysgol Cymru Bangor. Maent wedi cyflwyno argymhelliad ymchwil i'r Comisiwn Ewropeaidd, i ymchwilio i allu cymunedau i addasu i newid amgylcheddol ac i greu bywoliaeth ar sail adnoddau amgylcheddol. Maent yn gobeithio defnyddio dyffryn Dyfi fel astudiaeth achos oherwydd y broses Biosffer. Pe byddent yn llwyddiannus, byddai'r prosiect yn helpu'r gymuned a'r awdurdodau i ddeall sut i lywio newid i gyfeiriad fyddai'n ddymunol. Byddai'r ariannu i gyd yn dod o adnoddau ymchwil y Comisiwn Ewropeaidd.

# 4. DIFFINIO'R FRO

## 4.1 Cefndir

Yn 2001, cynhyrchwyd adroddiad gan 'Environmental Change Institute of the University of Oxford' ar Warchodfa Biosffer Dyfi. Mae darn ohono ar gael ar www.biosfferdyfi.org.uk fel Atodiad 3, neu drwy gysylltu â'r swyddfa.

Rydym yn gwybod o'r adroddiad hwn fod terfynau'r Biosffer bresennol yn rhy fach i fod yn gymwys o dan y meini prawf sydd wedi'u hadolygu, er nad yw UNESCO'n nodi'r maint lleiaf na'r boblogaeth angenrheidiol yn benodol. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys ardaloedd a ddiogelir yn unig, sef Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi (sy'n cynnwys Ynyslas, Cors Fochno a'r aber o Aberdyfi cyn belled â Chyffordd Dyfi).

Mae Biosfferau'n gorfod cynnwys nifer rhesymol o gartrefi a gweithgareddau busnes. Pwrpas cynnwys pobl a masnach mewn Biosfferau yw galluogi poblogaethau i gyrraedd at ddatblygiad cynaliadwy mewn ffordd addas i'w hanghenion.

Mae'n rhaid i Froydd Biosffer ddiffinio 'Ardal Graidd' ac 'Ardal Ffiniol' (Buffer Zone). Mae'n rhaid iddynt ddisgrifio ardal ehangach a elwir yn 'Ardal Cydweithrediad' neu 'Ardal Bontio'.

Diogelir y nodweddion cadwraethol gan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bod. Ni fydd Biosffer yn dwyn unrhyw warchodaeth deddfwriaethol ychwanegol. Fodd bynnag, bydd ei strwythur cyfundrefnol (gweler Adran 3 uchod) yn darparu peirianwaith i gytuno ar weithgaredd rhesymol oddi mewn i'r ardal Graidd ac ardal Ffiniol.

Byddant ar gael hefyd i archwilio cydweithrediad rhwng perchnogion tir a gweddill y gymuned. O ganlyniad (er enghraifft) gellir gwella marchnata cynnyrch bwyd a/neu ddod â thir ychwanegol i mewn i gytundebau rheoli tir gwirfoddol.

Mae rhai wedi gofyn am arweiniad gan Bartneriaeth Biosffer a Phwyllgor y DG 'Dyn a'r Biosffer' (MaB) ynglŷn â lle ddylai'r ardaloedd fod, ond hyd yma nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud. Er mwyn eich helpu i ystyried lle ddylai'r ardaloedd fod, mae manylion pob un i'w cael isod.

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch weld ffiniau pob dynodiad y sonnir amdanynt isod ar http://www.biosfferdyfi.org.uk.

Tra bo'r ardaloedd yn cael eu trafod yn nhermau'r defnydd o dir a'r amgylchedd, bydd gwarchod a gwella diwylliant yn nod pwysig i Fro'r Biosffer hefyd.

## 4.2 Ardal(oedd) Craidd

Mae UNESCO angen "ardal graidd gyfansoddiadol gyfreithlon neu ardaloedd sydd wedi ymroddi i warchod tymor hir, yn unol ag amcanion cadwraethol y warchodfa biosffer, ac o faint digonol i fedru cwrdd â'r amcanion hyn".

Yr arweiniad a gafwyd gan Bwyllgor y DG 'Dyn a'r Biosffer (MaB) yw bod yn rhaid i Ardaloedd Craidd fod o "arwyddocâd biodaearyddol rhanbarthol". Dylai fod ganddynt statws rhyngwladol sy'n cael ei ddiogelu gan y gyfraith. Dylai esiamplau gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA/SAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA/SPA - wedi'u dosbarthu o dan Gyfarwyddeb Adar y Comisiwn Ewropeaidd) neu safleoedd RAMSAR (ar gyfer gwlypdiroedd).

Dynodwyd Gwarchodfa Biosffer Dyfi yn y 1970au am fod yna gynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol oddi mewn i Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi. Mae'r Warchodfa Natur yn cynnwys Cors Fochno, twyni Ynyslas ac aber llanw'r Ddyfi, gan gynnwys y draethell laid o Ynyslas cyn belled â Chyffordd Dyfi. Fodd bynnag, nid yw'r Warchodfa Natur i gyd oddi mewn i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA/SAC) nag Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA/SPA).

Mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA/SAC yn berthnasol yma: (1) Cors Fochno, (2) Pen Llŷn a'r Sarnau (mae hyn yn cynnwys yr aber llanw i gyd ac yn parhau am ffordd hir allan i'r môr i'r gorllewin a'r gogledd), (3) Coed Cwm Einion. Coedwig fechan ond anarferol o ynn a leimwydd â dail bychain yw hon yn ymestyn i fyny ceunant serth. Mae'r planhigion sydd ar y ddaear yn amrywiol, ac yn cynnwys brÿoffyt Atlantaidd a rhedyn anghyffredin.

Mae Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA/SPA) Dyfi yn diogelu'r aber llanw a thipyn o dir ar y lan ddeheuol sydd y tu allan i ACA/SAC.

Mae pobl wedi holi sut y gall yr aber ei hun fod yn Ardal Graidd a chymaint o bobl yn ei defnyddio. Er bod ardal graidd i fod i gael ei gwarchod yn llym, yn ôl UNESCO "gall rhai gweithgareddau a defnyddiau ddigwydd neu gael eu caniatáu, yn gyson gydag amcanion yr ardal graidd"

Ni all y dynodiad ACA/SAC rwystro gweithgaredd sy'n digwydd ar neu uwchlaw'r dŵr, er bod gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru'r gallu i rwystro unrhyw weithgaredd newydd a allai fod yn niweidiol i'r ACA/SAC. Ni fyddai ychwanegu dynodiad Biosffer yn newid y safbwynt hwn, ond dylai ddod â chyfleoedd ychwanegol i benderfynu ar y cyd a datrys unrhyw wrthdaro.

Mae Partneriaeth Biosffer Dyfi'n awgrymu y dylai'r Ardal Graidd gynnwys yr ardaloedd canlynol:

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA/SAC) Cors Fochno, a rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA/SAC) Pen Llŷn a'r Sarnau h.y. aber a glannau'r afon Ddyfi, ac sy'n parhau allan i'r môr at y gyfuchlin 10 metr bathymetrig.

Gofynnir i chi roi eich sylwadau ar: a ddylai un neu'r ddwy ardal ganlynol gael eu cynnwys yn ychwanegol at hyn.

- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA/SPA) Dyfi
- Coed Cwm Einion

## 4.3 Ardal(oedd) Ffiniol

Mae UNESCO angen “ardal neu ardaloedd ffiniol wedi’u dynodi’n glir, ac a fyddai’n amgylchynu neu yn ymyl ardal/oedd craidd, lle na fydd gweithgareddau ar wahân i’r rhai sy’n gydnaws ag amcanion cadwraeth yn digwydd…” Gall ardaloedd ffiniol gefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau sy’n hyrwyddo swyddogaethau niferus y Warchodfa Biosffer, wrth helpu i sicrhau gwarchod ac esblygiad naturiol yr ardal/oedd craidd.

Mae arweiniad diweddar gan Bwyllgor y DG ‘Dyn a’r Biosffer’ (MaB) yn datgan ei bod yn rhaid i ardaloedd ffiniol gael eu cefnogi gan bolisi neu ddynodiad cadwraeth i ganiatáu ymyrraeth pe byddai hynny’n angenrheidiol, neu fod o dan berchnogaeth corff cyhoeddus. Maent yn cynghori na ddylai ardaloedd sydd o dan gytundeb cynllun amaeth-amgylchedd (megis Tir Gofal) gael eu cynnwys, gan nad ydynt yn gytundebau tymor hir.

Mae hyn yn awgrymu y dylem, yn y lle cyntaf, fod yn ystyried Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI).

Mae Partneriaeth Biosffer Dyfi’n awgrymu y dylai’r Ardal Ffiniol gynnwys yr ardal ganlynol:

- SDdGA/SSSI Dyfi – mae’r safle yn ymyl Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi ac yn cynnwys AGA/SPA Dyfi i gyd., ond nid yw’n cynnwys y tir sy’n ffinio â Chors Fochno i gyd.

Gofynnir i chi roi sylwadau ar: a ddylai un neu’r ddwy ardal ganlynol gael eu cynnwys yn ychwanegol at hyn.

- Y 5 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) mwyaf sydd agosaf at Gors Fochno (Coed Cwm Clettwr; Coed Cwm Einion; Coed Cwm Llyfnant; Pencreigau'r Llan; Pengarreg Gopa a Moel Hyrddod)
- Y ddau SDdGA/SSSI mwyaf sy’n gorwedd yn gyfan gwbl oddi mewn i ddalgylch dwyreiniol a gogleddol yr afon (Ceunant Twymyn; Afon Dyfi ger Mallwyd).

## 4.4 Ardal Bontio – beth yw ei phwrpas?

Mae UNESCO’n gofyn am “ardal bontio allanol lle bydd rheolaeth adnoddau’n cael eu hyrwyddo a’u datblygu”. Mae Strategaeth Seville UNESCO wedi rhoi pwyslais cynyddol ar yr ardal bontio gan mai dyma lle byddem yn mynd i’r afael â’r materion allweddol sy’n ymwneud â’r amgylchedd a datblygiad ardal arbennig. Nid yw ardal bontio trwy ddiffiniad yn gyfyngedig, ond mae’n gallu amrywio o ran maint yn ôl y materion a all godi tros gyfnod o amser.

Hyd yn hyn, cyn belled ag y mae cynefin a bioamrywiaeth yn y cwestiwn, yr ardal pontio yw’r lle fydd â’r potensial mwyaf i’r broses Biosffer ‘ychwanegu gwerth’ i’r ardaloedd a warchodir yn gyfreithiol.

Gall hyn ddigwydd trwy drafod cynlluniau amaeth-amgylchedd a rheoli tir ychwanegol a fyddai’n arbennig o fanteisiol i fywyd gwyllt. Yr amgylchiadau mwyaf tebygol yw’r rhai lle mae tir yn agos at Ardal Graidd neu Ardal Ffiniol – neu lle gellir creu ‘coridor bywyd gwyllt’ i gysylltu cynefinoedd tameidiog.

Gallai posibiliadau eraill gynnwys trin y pla sy'n effeithio ar redyn a lleddfu trawsnewidiadau rhwng y defnydd o dir (megis coedwigaeth a phorfa). Mae'r 'nwyddau amgylcheddol' y gall rheolwyr tir eu cyflwyno yn cynnwys gwell rheolaeth llifogydd ac edrychiad mwy naturiol i'r tirlun.

Bydd cyrff cyhoeddus sy'n cytuno â'r weledigaeth Biosffer yn cynnwys gwaith o'r fath yn eu rhaglenni. Bydd busnesau preifat yn disgwyl i weddill cymdeithas arddangos eu gwerthfawrogiad o'r gwasanaethau hyn trwy dalu am y gwaith angenrheidiol mewn rhyw fodd.

Mae'r adrannau sy'n disgrifio rhai o'r prosiectau presennol a'r rhai y gellir eu cyflwyno eto (2.7, 2.8, 2.9 ac Atodiad 4) yn rhoi blas o'r agweddau diwylliannol, cymunedol ac economaidd y gallai'r gymuned ddymuno eu datblygu yn yr Ardal Bontio.

## 4.5 Ardal Bontio - lle ddylai fod?

Dywed yr arweiniad gan Bwyllgor DG 'Dyn a'r Biosffer' (MaB) "y dylai'r ardal bontio amgylchynu'r rhan mwyaf rhesymol sy'n rhyngweithio gyda'r ardal graidd. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd gallai hwn fod yn fasn afon neu ddalgylch i fyny neu i lawr yr afon o'r safle. Rhywbeth mewn enw yw maint ardal bontio yn nhermau gweithgaredd neu weithred. Maent yn tueddu i dyfu yn hytrach na lleihau dros gyfnod o amser, ond dylai fod datganiad am raddfa'r effeithiau ac o bosib cymhareb o faint yr ardal graidd i'r ardal bontio; mae gwladwriaethau eraill yn defnyddio 1% a 3%, er enghraifft. Dylai'r ardal bontio a enwir fod yn hawdd i'w dynodi."

Oes gwahaniaeth ym mha le y mae? Dywedir yn aml mai 'ffiniau niwlog' sydd i Ardaloedd Pontio. Mae hyn yn awgrymu y dylai cyfranogwyr mewn gweithgaredd arbennig gael eu dewis am y byddant yn gwneud y gweithgaredd yn un mwy llwyddiannus, yn hytrach na ble maent wedi'u lleoli yn unig.

Mae pobl a busnesau oddi mewn i'r ardal yn cael eu hannog i gydweithredu gyda chymdogaethau cyfagos fyddai'n gallu cyrraedd amcanion y Biosffer. Efallai mai hwn yw'r rheswm dros weld cynnydd (er enghraifft, gallai grŵp o gynhyrchwyr arbenigol fod yn gryfach pe baent yn gwahodd busnesau addas sy'n ffinio gyda'r biosffer i gymryd rhan mewn cynllun marchnata). Gallai hyn ddigwydd er mwyn cael arbenigedd, er enghraifft, neu oherwydd gallu i ymchwilio. Byddai disgwyl i gyfranogwyr o ardal ehangach arddangos eu hymrwymiad i amcanion y Biosffer.

Mae diffinio'r ffiniau'n help i ddangos pwy sy'n rheoli'r broses, ond nid yw'n feriad i hepgor eraill mewn modd artiffisial – gweler hefyd y pwynt olaf yn Adran 5.2.

Mae Partneriaeth Biosffer Dyfi'n awgrymu y dylai'r Ardal Bontio gynnwys y canlynol:

- Y tir, y trigolion a'r busnesau oddi mewn i ddalgylch yr afon Ddyfi a'i hisafonydd, gan gynnwys y Leri hefyd.Er mwyn ei wneud yn hollol

eglur, ardaloedd y cynghorau lleol fydd y rhain. Gyda'i gilydd maent yn cwmpasu bron yr un ardal yn union: Genau'r Glyn, Borth, Ceulanamaesmawr, Ysgubor y Coed a Llancynfelin yng Ngheredigion; Machynlleth, Cadfarch, Glantwymyn a Llanbrynmair ym Mhowys; a Mawddwy, Corris, Pennal ac Aberdyfi yng Ngwynedd.

Gofynnir i chi roi sylwadau ar: a ddylai'r ardal ganlynol gael ei chynnwys yn ychwanegol at hyn:

- Ardaloedd cynghorau cymuned Aberystwyth, Faenor a Thirymynach.

## 4.6 Enw

Bydd yn rhaid i ni benderfynu ar enw swyddogol i Fro'r Biosffer. Defnyddir yr enw a ddewisir ar ddogfennau, adroddiadau a phan gyfeirir ati gan sefydliadau eraill, unigolion ayb. Mae rhai awgrymiadau isod.

Cwestiwn 4.6: Dylai'r fenter gael ei galw yn:

- Bro'r Biosffer Dyfi Biosphere Area
- Gwarchodfa Biosffer Dyfi Biosphere Reserve
- Biosffer Dyfi Biosphere
- Bio Fro Dyfi (is-deitl "Dyfi Biosphere Area")
- Y Fro Deg (is-deitl "Dyfi Biosphere Area")
- Arall – awgrymwch un!

# 5. ADRODDIAD O'R BROSES HYD YN HYN

## 5.1 Cefndir

Mae'r broses cyfathrebu â'r gymuned ynglŷn ag Ardal Biosffer Dyfi wedi bod yn digwydd ers Ebrill 2006. Bu Delyth Richards ac aelodau o'r Bartneriaeth yn cyflwyno gwybodaeth am froydd Biosffer, yn trafod y manteision posibl y gallai ddod yn sgil dynodiad, ac yn gwrando ar ymateb pobl. Bu hyn yn digwydd trwy gyflwyniadau i grwpiau, cyfarfodydd cyhoeddus, sgyrsiau un i un, papurau newydd, cyhoeddiadau, y wefan www.dyfibiosphere.org.uk ac mewn ffyrdd eraill.

Rhestrwyd y prif gyflwyniadau yn Atodiad 5.

Dosbarthwyd taflen i bob cartref a busnes yn y fro yn ystod y gaeaf. Roedd yn cynnwys slip ateb i annog pobl i anfon eu sylwadau a'u cwestiynau neu i ofyn am wybodaeth bellach. Dosbarthwyd ail daflen yn Ebrill 2007.

Ar y cyfan, mae'r ymateb wedi bod yn eithaf positif, gyda'r nifer o bobl sy'n dangos diddordeb yn y prosiect yn cynyddu. Er bod y mewnbwn mwyaf a dderbyniwyd hyd yn hyn ar lafar, rydym wedi derbyn mwy na 100 o atebion ysgrifenedig. Mae'r rhain yn cynnwys 50 slip a 50 ffurflen ymateb o gyfarfodydd cyhoeddus a chyflwyniadau.

Er bod llawer o bobl wedi bod yn ofalus ac yn aros i weld pa fath o fanylion fyddai'n ymddangos yn y ddogfen hon, mae'r ymatebion ysgrifenedig wedi

bod yn gefnogol ac yn cynnwys sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol. Mewn llawer o'r cyfarfodydd cyhoeddus cafwyd amheuaeth ar y dechrau, ond erbyn y diwedd cafwyd trafodaethau adeiladol am y manteision posibl, a sut y gellid gwneud i'r broses weithio.

Dywedodd llawer o bobl eu bod yn awyddus i fod yn rhan o'r broses drafod, ac eisiau derbyn gwybodaeth am bob datblygiad. Byddant yn derbyn copi o'r ddogfen hon. O hyn ymlaen, bydd y Fforwm ar ran newydd gwefan www.dyfibiosphere.org.uk yn ffordd ychwanegol i'r rhai sydd â mynediad i'r rhyngrwyd fedru cymryd rhan.

## 5.2 Sampl o'r awgrymiadau a'r pwyntiau a godwyd hyd yn hyn

*"Mae'n syniad positif, diddorol a chyffrous". "Mae Ynyslas a Bro Ddyfi … yn werthfawr a rhaid eu diogelu i'r dyfodol, mae cymaint o hanes yma i'r fro." "Mae'n swnio fel Parc Cenedlaethol arall i mi".*
Daeth cynulleidfaoedd i sylweddoli bod y syniad hwn yn wahanol i ddynodiadau eraill. Nid UNESCO neu gorff cyhoeddus arall sy'n cyflwyno set newydd o reolau a rheoliadau; mae'n gyfle i'r gymuned leol weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth gan gyrff cyhoeddus a chymunedau mewn mannau eraill. Mae am werthfawrogi a gwarchod yr asedau naturiol a diwylliannol rydym wedi'u hetifeddu, a gwneud hynny'n wirfoddol.

*"Hoffwn wybod mwy am sut y bydd yn effeithio ar ddulliau ffermio". "Yr hyn sy'n fy mhryderu fwyaf yw bod bywyd gwyllt yn cael y flaenoriaeth - mae gormod o bwyslais y dyddiau hyn ar fynediad i bobl."*
Mae'n amlwg bod ffermwyr yn teimlo pwysau'r nifer fawr o gyfundrefnau rheoliadau sydd eisoes yn bodoli, ac yn digalonni wrth feddwl am fwy o gyfyngiadau a biwrocratiaeth. Sicrhawyd y rhai oedd yn bresennol na fyddai Biosffer yn dod â mwy o warchod deddfwriaethol. Roedd rhai yn gweld cyfle marchnata trwy ddefnyddio brand Biosffer.

*"Rydym angen mwy o dwristiaid/ymwelwyr yn y gaeaf a'r haf, tra'n cynnal a diogelu natur y fro."*
Dangoswyd llawer o ddiddordeb mewn helpu'r economi leol i gynyddu'r math o dwristiaeth sy'n sensitif i'r amgylchedd a'r diwylliant lleol. Nid oedd pawb eisiau gweld mwy o ymwelwyr ganol haf, ond yn gweld cyfle i gynyddu'r diddordeb drwy'r flwyddyn ar ei hyd mewn cerdded, gwylio natur a gweithgareddau awyr agored eraill. Bu rhai'n trafod sut y gallem gynnig nwyddau a gwasanaethau o safon uwch i ymwelwyr fel y byddai'r economi leol yn manteisio ar wariant uwch, yn hytrach nag ar fwy o bobl.

*"Mae angen i ni hyrwyddo pa mor falch ryden ni o'r acen leol".Dylem fanteisio i'r eithaf ar hanes a phwysigrwydd y fro hon! .h.y. amgueddfeydd neu arddangosfeydd."*
Mewn rhai digwyddiadau bu trafod beth sy'n unigryw yn y diwylliant lleol. Un agwedd o hyn yw'r dafodiaith leol. Un arall yw cryfder y gymuned sy'n cael ei symbylu gan faterion ecolegol. Mae gan bobl ddiddordeb mewn darganfod pa weithgareddau diwylliannol fyddai'n cael eu helpu gan ddynodiad Biosffer.

*"Fyddai'r dynodiad yn gwella'r gwasanaeth bws o Ddinas Mawddwy i Fachynlleth?"*
Dyma enghraifft o bobl yn gofyn pa fanteision ddaw i 'bobl gyffredin' yn sgil y dynodiad. Roedd pobl mewn cyfarfodydd yn sylweddoli pa mor bwysig yw cludiant cyhoeddus oherwydd rhesymau amgylcheddol yn ogystal â rhesymau cymdeithasol, ac y byddai gwasanaethau yn fwy cost-effeithiol pe cawsent eu defnyddio gan ymwelwyr sy'n 'amgylcheddol-ymwybodol' yn ogystal â phobl leol. Yn gyffredinol, roedd y rhai oedd yn mynychu cyfarfodydd yn gweld y bydd manteision yn dod dim ond i bobl fynd ati i drefnu prosiectau perthnasol.

*"Byddai'r Biosffer yn cryfhau'i gais a'i hygredded pe byddai'n cynnwys y Brifysgol, IGER ayb oherwydd lefel yr ymchwil a'r datblygiad economaidd sy'n digwydd o fewn yr ardal honno ar hyn o bryd".*
Roedd ar bobl eisiau gwybod ble fyddai'r ffin - pwy sydd fewn a phwy sydd ddim - ac roeddynt yn synnu'n aml wrth sylweddoli fod hwn yn un o'r materion fyddai'n cael ei benderfynu trwy drafodaeth gyhoeddus. Dim ond un cymuned sydd y tu allan i'r ardal a awgrymwyd gan arolwg Rhydychen sydd wedi gofyn am gael ei chynnwys, ac Aberystwyth yw honno. Daeth pobl i ddeall yn y cyfarfodydd y dylai bod cyfleoedd i fusnesau a sefydliadau gymryd rhan mewn gweithgareddau perthynol i'r Biosffer, hyd yn oed os ydynt wedi eu lleoli tu allan i Fro'r Biosffer.

## 6. CASGLIAD

Tra bod y penderfyniad ynglŷn â gofyn i UNESCO gadarnhau'r cais i fod yn Fro Biosffer yn nwylo'r gymuned gyfan (a darllenwyr y ddogfen hon yn arbennig), mae Partneriaeth Biosffer Dyfi'n credu bod hwn yn gyfle na ddylem ei golli. Mae'n rhoi cyfle i archwilio ac arddangos y ffordd tuag at ddatblygu cynaliadwy ar raddfa ranbarthol. Mae ganddo'r potensial i feithrin datblygu economaidd a dynol sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol-ddiwylliannol ac yn ecolegol.

Mae gan y fro y potensial i wasanaethu fel safle peilot dros hyrwyddo datblygu cynaliadwy'r rhanbarth, gyda phersbectif rhyngwladol. Mae wedi gwneud hynny'n barod i raddau, ond mae'r mesurau a awgrymir yn y ddogfen hon yn chwyddo'r potensial hwnnw. Tra byddai dynodiad Biosffer yn rhoi statws arbennig a momentwm i ddatblygiad y dyffryn, byddai'r cydweithrediad a'r gweithgareddau fyddai'n digwydd o dan ei ambarél yn llawer pwysicach na'r 'bathodyn'. Pe byddem yn llwyddiannus, gallai hyn gael ei ailadrodd trwy Ganolbarth Cymru a thu hwnt.

Cwestiwn 6: A ddylai Partneriaeth Biosffer gyflwyno cais i UNESCO, yn gofyn iddynt dderbyn ardal Dyfi yn Fro Biosffer fodern?

## 7. CAMAU NESAF

Mae Delyth Richards yn awyddus i drafod y ddogfen hon gyda chi. Efallai y byddech yn hoffi'i gwahodd i gyfarfod eich clwb neu gymdeithas, neu drefnu apwyntiad i'w gweld. Byddai pob croeso i chi daro i mewn i unrhyw un o'r digwyddiadau isod. Bydd pob cyfarfod yn agor am 3pm ac yn cynnwys cyflwyniad byr am 7pm. Dewch unrhyw adeg cyn 9pm. Bydd te a choffi ar gael am ddim.

| Dyddiad | Lle | Lleoliad |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 8 Mai | Llanbrynmair | Canolfan Gymdeithasol |
| Dydd Mercher 9 Mai | Talybont | Neuadd Goffa |
| Dydd Iau 10 Mai | Machynlleth | Canolfan Owain Glyndŵr |
| Dydd Llun 14 Mai | Dinas Mawddwy | Neuadd Bentref |
| Dydd Gwener 25 Mai | Aberdyfi | Neuadd Aberdyfi |

Anfonwch eich atebion a'ch sylwadau yn ôl cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda. Bydd fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen hon yn cael ei anfon i'r awdurdodau lleol ddechrau Mehefin 2007, ond byddwn yn dal i ddefnyddio'r sylwadau y byddwn yn eu derbyn ar ôl hyn.

**Bydd ymatebion a dderbynnir ar ôl 30 Mehefin 2007 yn rhy hwyr i ddylanwadu ar y penderfyniad i symud ymlaen ai peidio, ond byddant yn cael eu defnyddio i lunio'r camau dilynol.**

Rydym yn awyddus i dderbyn barn leol yn ysgrifenedig ac yn bersonol, yn electronig ac ar lafar. Bydd Partneriaeth Biosffer Dyfi'n edrych ar yr ymatebion i weld a oes consensws ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Bydd eich cyfraniadau yn ein helpu i lunio cais i UNESCO, pe byddem yn symud ymlaen. Bydd wedi'i seilio ar y ddogfen hon, gyda disgrifiadau ychwanegol o'r fro, ei diwylliant, ei amgylchedd a'i heconomi. Fe'i anfonir i'r Cynulliad Cymreig ac i Lywodraeth San Steffan ddechrau Tachwedd 2007.

Mae'n bosib na glywn beth fydd y canlyniad tan Awst 2008. Yn ystod y misoedd yn arwain at y dyddiad hwnnw byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Fforwm ar y wefan www.biosfferdyfi.org.uk (yn ogystal â dulliau eraill) i gynllunio sut mae gwneud y defnydd gorau o'r dynodiad. Hyd yn oed pe na fyddai'n cais yn llwyddiannus, gallwn ddefnyddio'ch syniadau i ddatblygu prosiectau newydd, arloesol.

Cwestiwn 7: Sut fyddech chi'n hoffi cymryd rhan yn Bro'r Biosffer arfaethedig pe byddai'n digwydd?

## ATODIADAU

Atodiad 1: Beth yw Gwarchodfeydd Biosffer?
Atodiad 2: Gweledigaeth UNESCO ar gyfer Gwarchodfeydd Biosffer
Atodiad 3: Cofnod Dyfi ar gyfer Arolwg Gwarchodfeydd Biosffer y DG
Atodiad 4: Enghreifftiau ychwanegol o weithgareddau
Atodiad 5: Rhestr o ddigwyddiadau cyhoeddus

## ADNODDAU AR Y WE

Bro'r Biosffer Dyfi www.biosfferdyfi.org.uk
Rhaglen UNESCO MaB (Dyn a'r Biosffer)
http://www.unesco.org/mab/wnbr.htm
UNESCO: biosfferau'n gryno/UNESCO: biospheres in a nutshell
http://www.unesco.org/mab/nutshell.htm
Cofnod Dyfi yng nghyfeirlyfr Biosffer UNESCO/Dyfi entry in the UNESCO Biosphere directory
http://www2.unesco.org/mab/br/brdir/directory/biores.asp?mode=all&code=UKM+05
UK MaB http://www.nmw.ac.uk/mab/ukbr.htm
Arolwg o Warchodfeydd Biosffer y DG/Review of UK Biosphere Reserves:
http://www.nmw.ac.uk/mab/BRReport/Head.htm#contents
Cofnod Dyfi yn arolwg y DG/Dyfi entry for the UK Review
http://www.nmw.ac.uk/mab/BRReport/dyfi.htm

# Ymgynghoriad Biosffer Dyfi: Taflen Ymateb

**Rydym yn croesawu eich sylwadau ar argymhelliad Biosffer Dyfi. Os ydych am ddylanwadu ar y prif benderfyniad (i symud ymlaen gyda chyflwyno cais ffurfiol am statws Biosffer fodern UNESCO) llenwch y ffurflen isod erbyn 30 Mehefin 2007 os gwelwch yn dda.**

*Gallwch ateb gymaint, neu cyn lleied o gwestiynau ag y dymunwch.*

*Mae rhai cwestiynau'n cynnig nifer o opsiynau a gofynnir i chi naill ai rhoi tic wrth un (yn unig) neu i gytuno ag unrhyw nifer. Bydd rhai eraill yn gofyn i chi wirio'r ateb rydych yn ei ddewis ar raddfa o 1 i 5, lle gwelwch:*
1 = na, yn bendant / ddim yn hoffi hwn o gwbl
2 = na, ddim yn debygol / ddim yn hoffi hwn rhyw lawer
3 = ddim yn gwybod / ddim yn malio / efallai
4 = ie, yn debygol / dwi'n ei hoffi weddol
5 = ie, yn bendant / hoffi hwn yn fawr

*Byddai'n help pe byddech yn ychwanegu sylwadau ac awgrymiadau hefyd (ysgrifennwch nhw yn rhywle) i egluro'ch atebion.*

Mae'r cwestiynau wedi'u rhifo'r un fath ag yn y ddogfen.
Allech ddim deall ac ateb rhai o'r cwestiynau heb y ddogfen o'ch flaen chi!

Adran 2.1: A ddylai Biosffer Dyfi bryderu am warchod asedau diwylliannol yn ogystal ag asedau naturiol? 1 2 3 4 5

Adran 2.3: A ddylai Biosffer Dyfi fabwysiadu'r weledigaeth a'r amcanion a ddisgrifir? 1 2 3 4 5

Adran 2.4 A oes unrhyw nodweddion naturiol penodol yr hoffech eu gweld yn cael eu gwarchod neu'u gwella?

Adran 2.5: A oes unrhyw nodweddion diwylliannol penodol yn y fro sydd angen eu gwarchod, eu datblygu neu'u hyrwyddo?

Adran 2.7, 2.8 & 2.9: Fedrwch chi awgrymu unrhyw weithgareddau neu brosiectau ychwanegol?

Adran 3.2: A yw'r egwyddorion hyn yn addas? 1 2 3 4 5

Adran 3.3a: Pe byddai'r Bartneriaeth bresennol yn datblygu i fod yn Bartneriaeth cydlynu am yr hir dymor, pa newidiadau neu ychwanegiadau a ddylid eu gwneud i'w aelodaeth (os o gwbl)?

Adran 3.3b: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y trefniadau a ddisgrifir?

Adran 3.7: A yw'n iawn fod cyfran mor uchel o'r ariannu 'craidd' i ddod o'r pwrs cyhoeddus? 1 2 3 4 5

Adran 4.2: Pa rai o'r canlynol ddylai gael eu cynnwys yn yr Ardal Graidd? *Dewiswch unrhyw nifer.*

a) Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA/SAC) Cors Fochno, a'r rhan honno o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA/SAC) Pen Llŷn a'r Sarnau h.y. aber a glannau'r afon Ddyfi, ac sy'n parhau allan i'r môr at y gyfuchlin 10 metr bathymetrig.
b) AGA/SPA Dyfi
c) Coed Cwm Einion

Adran 4.3: Pa rai o'r ardaloedd canlynol ddylai gael eu cynnwys yn yr Ardal neu Ardaloedd Ffiniol (Buffer Zone/s)? *Dewiswch unrhyw nifer.*

a) Safle o Diddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Dyfi - mae'r safle yn ymyl Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi ac yn cynnwys Ardal Gwarchodaeth (AGA/SPA) Dyfi i gyd, ond nid yw'n cynnwys y tir sy'n ffinio â Chors Fochno i gyd.
b) Y 5 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) sydd agosaf at Gors Fochno (Coed Cwm Clettwr; Coed Cwm Einion; Coed Cwm Llyfnant; Pencreigau'r Llan; Pengarreg Gopa a Moel Hyrddod)
c) Y ddau SDdGA/SSSI mwyaf sy'n gorwedd yn gyfan gwbl oddi mewn i ddalgylch dwyreiniol a gogleddol yr afon (Ceunant Twymyn; Afon Ddyfi ger Mallwyd).

Adran 4.5: Pa rai o'r disgrifiadau canlynol o Ardal Bontio sydd orau gennych? *Dewiswch un yn unig*.

- Y tir, y trigolion a'r busnesau oddi mewn i ddalgylch yr afon Ddyfi a'i hisafonydd, gan gynnwys y Leri hefyd. Er mwyn ei wneud yn hollol eglur, ardaloedd y cynghorau lleol fydd y rhain. Gyda'i gilydd maent yn cwmpasu bron yr un ardal yn union: Genau'r Glyn, Borth, Ceulanamaesmawr, Ysgubor y Coed a Llancynfelin yng Ngheredigion; Machynlleth, Cadfarch, Glantwymyn a Llanbrynmair ym Mhowys; a Mawddwy, Corris, Pennal ac Aberdyfi yng Ngwynedd.
- Yr ardal uchod yn ogystal ag ardaloedd cynghorau cymuned Aberystwyth, Faenor a Thirymynach.

Adran 4.6*: Rhowch sgôr o 1-5 i bob un o'r dewisiadau isod, bydd 5 yn golygu "Rwy'n hoffi hwn yn fawr"*

- Bro'r Biosffer Dyfi Biosphere Dyfi 1 2 3 4 5
- Gwarchodfa Biosffer Dyfi Biosphere Reserve 1 2 3 4 5
- Biosffer Dyfi Biosphere 1 2 3 4 5
- Bio Fro Dyfi (is-deitl "Dyfi Biosphere Area") 1 2 3 4 5
- Y Fro Deg (is-deitl "Dyfi Biosphere Area") 1 2 3 4 5
- Arall – awgrymwch chi! 1 2 3 4 5

Adran 6: Ddylai'r Partneriaeth Biosffer gyflwyno cais i UNESCO, yn gofyn iddynt dderbyn ardal Dyfi fel Bro Biosffer fodern? 5 = ie, yn bendant
1 2 3 4 5

Adran 7: Sut fyddech chi'n hoffi cymryd rhan yn Bro'r Biosffer arfaethedig os bydd hynny'n digwydd?

Pe byddech yn hoffi i ni anfon gwybodaeth atoch am yr hyn sy'n digwydd ynglŷn â'r Biosffer, rhowch eich manylion isod:

Enw

Cyfeiriad

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Anfonwch….o  gopïau o'r Ddogfen Ymgynghorol lawn i mi (ac unrhyw wybodaeth bellach), os gwelwch yn dda

Anfonwch….o gopïau o Grynodeb o'r Ddogfen Ymgynghorol (ac unrhyw wybodaeth bellach), os gwelwch yn dda

**Diolch i chi am roi o'ch amser i ddarllen ac ymateb i'r ddogfen hon**

Anfonwch